# Cytuno ar setliad hawliadau uniongyrchol am golledion oedd heb eu hyswirio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chytuno ar setliad ar gyfer hawliadau uniongyrchol colledion heb eu hyswirio.  Bydd eich gwaith yn cynnwys cwblhau colledion heb eu hyswirio. Byddwch yn cynorthwyo cwsmeriaid i adennill colledion heb eu hyswirio. Byddwch yn gwirio bod gennych chi'r holl ddogfennaeth neu wybodaeth ofynnol i ddelio gyda'r elfen o'r hawliad sy'n ymdrin â cholled heb ei yswirio. Byddwch yn mynd ar ôl eraill, fel sy'n angenrheidiol, i sicrhau bod adennill yn digwydd.  Bydd angen hefyd i chi gyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno a rhoi sylw i fanylion sy'n hollbwysig i'ch gwaith.

Mae'n bosibl y bydd y safon hon yn addas i chi os ydych chi'n gweithio i yswiriwr costau cyfreithiol, neu unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â chytuno ar setliad ar gyfer colledion uniongyrchol heb eu hyswirio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi a chasglu'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i gytuno ar setliad ar gyfer yr hawliad
2. Gwirio bod hawliadau yn cael eu llunio a'u cyflwyno i drydydd partïon yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
3. Monitro cynnydd hawliadau a delio gydag unrhyw oedi, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. Cyfeirio problemau a hawliadau sydd y tu allan i lefelau eich awdurdod at y person neu'r adran yn eich sefydliad sy'n briodol
5. Cyd-drafod ag eraill i ddatrys problemau a chwblhau hawliadau er lles pennaf eich cleient ac yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Trefnu i setlo hawliadau, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
7. Ymdrin ag unrhyw broblemau neu gwynion sy'n gysylltiedig â hawliadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cadw cofnodion cywir a chyflawn, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Cwmpas y polisi, y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys estyniadau, taliadau ychwanegol neu gyfyngiadau safonol
4. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor ar gyfer delio gyda hawliadau cymhleth a cholledion heb eu hyswirio
5. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol pan fydd hawliadau'n syrthio y tu allan i'r terfynau hynny
6. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer delio gyda cholledion heb eu hyswirio
7. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi sut setlwyd hawliadau
8. Systemau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyrchu, cofnodi a newid gwybodaeth
9. Gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys y rhai ar gyfer delio gyda chwynion
10. Rolau a swyddogaethau partïon eraill sy'n ymwneud â hawliadau
11. Y dogfennau neu'r wybodaeth sy'n ofynnol i brosesu hawliad
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gweithredu oddi mewn i derfynau eich cyfrifoldeb
2. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
3. Rydych yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd

FSPGI09

Cytuno ar setliad hawliadau uniongyrchol am golledion oedd heb eu hyswirio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI09 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |